Mehefin 4ydd, 2018

Annwyl Riant /Gwarcheidwad,

Dim ond nodyn byr i'ch atgoffa o'r trefniadau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12 am weddill yr hanner tymor.

Bydd gwersi Blwyddyn 12 yn ail-ddechrau ar ddydd Mawrth, 5ed Mehefin (Cyfrifiadureg i ddychwelyd yn dilyn arholiad 8/6/18). Mae'n hanfodol eu bod yn mynychu'r ysgol oherwydd eu bod yn dechrau'r cyrsiau Safon Uwch bryd hynny ac yn ymgymryd â nifer o weithgareddau eraill. Nid oes hawl gan unrhyw ddisgybl i ollwng pwnc tan y canlyniadau Uwch Gyfrannol ar 16eg Awst.

Os nad ydy eich plentyn yn golygu dychwelyd i Flwyddyn 13, gwerthfawrogwn lythyr yn cadarnhau y penderfyniad hwn cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Dyma'r dyddiadau allweddol wedi dychwelyd i'r Ysgol ar ôl y cyfnod arholiadau:

5 - 8 Mehefin: Gwersi arferol

11 - 15 Mehefin: Gwersi arferol

18 – 22 Mehefin: Gwersi arferol

25 – 29 Mehefin: Profiad Gwaith Blwyddyn 12

2 – 6 Gorffennaf: Wythnos Cyfoethogi'r Cwricwlwm (UCAS a dewisiadau ar gyfer y dyfodol)

9 - 13 Gorffennaf: Gweithgareddau'r Fagloriaeth Gymreig

16 - 20 Gorffennaf: Gwersi arferol

Cyhoeddir y canlyniadau Uwch Gyfrannol ar ddydd Iau, Awst 16eg ac anogir bod eich mab/merch yn mynychu'r ysgol er mwyn derbyn a thrafod eu canlyniadau a chadarnhau'r pynciau Lefel A gydag aelodau staff, a fydd yn bresennol yn neuadd yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Wyn (Pennaeth) Edwina Rees (Pennaeth CA5)

4th June, 2018

Dear Parent/Guardian,

A reminder about the arrangements for Year 12 pupils for the forthcoming term.

Year 12 lessons will re-commence on Tuesday, 5th June (Computer Science to return following their exam on 8/6/18). It will be essential for the students to attend school then as they will be starting their Advanced Level courses and participate in a number of organised activities. No pupils will be permitted to leave any subjects until they receive their AS results on August 16th.

If your child is not intending on returning to Year 13, we kindly ask for a letter confirming this decision, as soon as possible please.

Key dates after returning from study leave:

5 – 8 June: Normal timetable

11 - 15 June: Normal timetable

18 - 22 June: Normal timetable

25 - 29 June: Year 12 Work experience

2 – 6 July: Curriculum Enrichment Week (UCAS + choices for the future)

9 - 13 July: Welsh Baccalaureate activities

16 – 20 July: Normal timetable

Advanced Level results will be published on Thursday, August 16th. We strongly advise your son/daughter to attend school to receive and discuss the results and confirm A Level subject choices with members of staff, who will be present in the school hall.

Yours Faithfully,

Jane Wyn
(Headteacher)

Edwina Rees
(Head of KS5)